



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

Cylchlythyr

Rhif y Cylchlythyr:		Dyddiad cyhoeddi:	DD / MM / BBBB
Statws:			
Teitl:			
Cyhoeddwyd gan:			
Cyfeiriwyd at:	Anfonwch ymlaen at:		
Crynodeb:			
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:			
	Llinell Uniongyrchol:		
	E-bost:		
	Gwefan:		

Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2015

Cyflwyniad

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddiadau imi dynnu eich sylw at y ffaith bod Atodlen 3 (cynlluniau hunanardystio ac esemptiadau i'r gofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu i adneuo cynlluniau llawn) yn cael ei dileu a'i disodli, a bod newidiadau yn cael eu gwneud i Reoliad 43 (4) (Profi pwysedd) o Reoliadau 2010 **o ran Cymru**.
2. Gwnaed y rheoliadau diwygiedig gan Weinidog Cyfoeth Naturiol Cymru drwy arfer y pwerau a gynhwysir yn Neddf Adeiladu 1984.
3. Diben y Cylchlythyr hwn yw tynnu sylw at newidiadau a ddaw i rym ar 31 Gorffennaf 2015.

Atodlen 3 a Phrofi Pwysedd

4. Mae Atodlen 3 o Reoliadau 2010 yn rhestru'r holl gyrff a awdurdodwyd i weithredu cynlluniau hunanardystio personau cymwys ar gyfer gwahanol fathau o waith. Mae gosodwyr sydd wedi eu cofrestru â'r cynlluniau hyn wedi eu hawdurdodi i ardystio bod eu gwaith eu hunain yn cydymffurfio â Rheoliadau 2010 heb iddo gael ei archwilio gan gorff rheoli adeiladu.
5. Mae rheoliad diwygio 3 yn diwygio Atodlen 3 o Reoliadau Adeiladu 2010 i awdurdodi cynlluniau hunanardystio personau cymwys newydd ac estynedig a hefyd i ddirymu awdurdodiad cynlluniau ar gyfer mathau o waith pan nad ydynt bellach yn gweithredu cynllun.
6. Mae rhes newydd rhif 4 yn cyfuno'r rhesi blaenorol 2, 5, 6 a 7 (Gosod system wresogi neu ddŵr poeth, neu reolyddion cysylltiedig) o'r atodlen flaenorol o ran Cymru.
7. Mae rheoliad diwygio 4(a) yn awdurdodi gweithredwr cynllun newydd ar gyfer profi pwysedd adeiladau newydd ar 31 Gorffennaf 2015 ac mae rheoliad diwygio 4(b) yn dirymu awdurdodiad gweithredwr cynllun arall ar 31 Rhagfyr 2015.
8. Mae Atodiad A y cylchlythyr hwn yn rhoi manylion llawn y newidiadau o ran cynlluniau newydd ac estynedig a awdurdodwyd ac mae Atodiad B yn rhoi manylion llawn rhifau newydd y rhesi a'r cynlluniau a awdurdodwyd ar gyfer pob math o waith.

Ymholiadau

9. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r Cylchlythyr hwn at:

Owen Venables, Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car,
Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

Rhif ffôn: 0300 062 8535

E-bost : enquiries.brconstruction@wales.gsi.gov.uk.

Atodiad A

Mae'r tablau a ganlyn yn rhestru'r holl newidiadau a wnaed gan O.S. 2015/1486 (Cy. 165) i reoliad 43(4) o Reoliadau Adeiladu 2010 (O.S. 2010/2214) ac Atodlen 3 i'r rheoliadau hynny.

Awdurdodiad a ddaw i rym ar 31 Gorffennaf 2015

Cyfeiriad statudol yn Rheoliadau Adeiladu 2010	Math o Waith	Enwau Cynlluniau newydd ac estynedig
Rheoliad 43(4)	Profi pwysedd	Independent Air Tightness Testing Scheme
Atodlen 3 Rhes 2	Gosod – (a) cyfarpar hylosgi sy'n llosgi olew; neu (b) tanciau storio olew a'r pibelli sy'n eu cysylltu â chyfarpar hylosgi. Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i ddarparu simnai gwaith maen.	Blue Flame Certification Limited
Atodlen 3 Rhes 3	Gosod cyfarpar llosgi tanwydd solet ar wahân i gyfarpar biomas. Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i ddarparu simnai gwaith maen.	Oil Firing Technical Association Limited a Stroma Certification Limited
Atodlen 3 Rhes 4	Gosod system wresogi neu ddŵr poeth, neu'r rheolyddion cysylltiedig.	Blue Flame Certification Limited
Atodlen 3 Rhes 5	Gosod system awyru fecanyddol neu system aerdymheru neu reolyddion cysylltiedig, mewn adeilad heblaw annedd, pan nad yw hynny'n cynnwys gweithio ar system a rennir â rhannau o'r adeilad a feddiennir ar wahân.	Blue Flame Certification Limited
Atodlen 3 Rhes 6	Gosod system aerdymheru neu system awyru fecanyddol mewn tŷ annedd, pan nad yw hynny'n cynnwys gweithio ar system a rennir ag anheddau eraill.	Blue Flame Certification Limited
Atodlen 3 Rhes 7	Gosod system oleuo neu system wresogi trydan sy'n arbed ynni neu reolyddion cysylltiedig, mewn adeiladau heblaw anheddau.	Blue Flame Certification Limited
Atodlen 3	Gosod gosodiadau trydan gosodedig foltedd isel	Blue Flame

Rhes 8	neu isel iawn mewn anheddau.	Certification Limited
Atodlen 3 Rhes 9	Gosod gosodiadau trydan gosodedig foltedd isel neu isel iawn mewn anheddau, yn ychwanegiad angenrheidiol at waith arall sy'n cael ei wneud gan y person cofrestredig, neu'n deillio o waith arall o'r fath.	Blue Flame Certification Limited
Atodlen 3 Rhes 10	Gosod ffenestr, ffenestr nad yw'n agor yn y to, ffenestr to neu ddrws mewn annedd bresennol, yn lle un sydd eisoes yn bodoli.	Blue Flame Certification Limited
Atodlen 3 Rhes 11	Gosod, yn lle un sydd eisoes yn bodoli, ffenestr, ffenestr nad yw'n agor yn y to, ffenestr to neu ddrws mewn adeilad presennol nad yw'n annedd. Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i wydr sy'n cynnal pwysau neu'n strwythurol neu sy'n rhan o furlen wydrog neu ddrws troi.	Blue Flame Certification Limited, NAPIT Registration Limited a Network VEKA
Atodlen 3 Rhes 13	Gosod cyflenwad dŵr iachusol neu gyflenwad dŵr iachusol wedi ei feddalu.	Stroma Certification Limited
Atodlen 3 Rhes 17	Gosod deunydd inswleiddio mewn waliau ceudod adeilad sydd eisoes yn bodoli.	Blue Flame Certification Limited a CERTASS Limited
Atodlen 3 Rhes 18	Gosod deunydd inswleiddio ar waliau mewnol adeilad, heb gynnwys gosod leinin thermol hyblyg.	Blue Flame Certification Limited
Atodlen 3 Rhes 19	Gosod deunydd inswleiddio ar waliau allanol adeilad, heb gynnwys inswleiddio adeiladau â chladin dros dro.	Blue Flame Certification Limited
Atodlen 3 Rhes 20	Gosod deunydd inswleiddio ar waliau mewnol ac allanol adeilad ("inswleiddio hybrid"), heb gynnwys inswleiddio adeiladau â chladin dros dro a heb gynnwys gosod leinin thermol hyblyg.	Blue Flame Certification Limited, CERTASS Limited a Stroma Certification Limited

Dirymu Awdurdodiad

Cyfeiriad statudol yn Rheoliadau Adeiladu 2010	Math o Waith	Enw'r Cynllun	Yn dod i rym
Rheoliad 43(4)	Profi pwysedd	British Institute of Non-Destructive	31 Rhagfyr 2015

		Testing	
Atodiad 3 Rhes 2	<p>Gosod –</p> <p>(a) cyfarpar hylosgi sy'n llosgi olew; neu</p> <p>(b) tanciau storio olew a'r pibelli sy'n eu cysylltu â chyfarpar hylosgi.</p> <p>Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i ddarparu simnai gwaith maen.</p>	Benchmark Certification Limited	31 Gorffennaf 2015
Atodlen 3 Rhes 15	<p>Gosod system mewn adeilad i gynhyrchu trydan neu wres, neu i oeri –</p> <p>(a) drwy ficrogynhyrchu; neu</p> <p>(b) o ffynonellau adnewyddadwy (fel y'u diffiniwyd yng Nghyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor 2009/82/EC ar hyrwyddo'r defnydd o ynni o ffynonellau adnewyddadwy)</p>	BRE Global Limited	31 Gorffennaf 2015

Atodiad B

Mae'r tabl a ganlyn yn rhestru rhifau blaenorol y rhesi a rhifau newydd y rhesi, y math o waith a'r cynlluniau awdurdodedig.

Rhif Blaenorol y Rhes	Rhif Newydd y Rhes	Colofn 1 <i>Math o Waith</i>	Colofn 2 <i>Y Person sy'n Cyflawni Gwaith</i>
1	1	Gosod cyfarpar nwy sy'n cynhyrchu gwres. Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i ddarparu simnai gwaith maen.	Person, neu gyflogai i berson, sy'n aelod o ddsbarth o bersonau a gymeradwywyd yn unol â rheoliad 3 o Reoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998.
3	2	Gosod – cyfarpar hylosgi sy'n llosgi olew; neu danciau storio olew a'r pibelli sy'n eu cysylltu â chyfarpar hylosgi. Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i ddarparu simnai gwaith maen.	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan yr Association of Plumbing and Heating Contractors (Certification) Limited, Blue Flame Certification Limited, Building Engineering Services Competence Assessment Limited, Certsure LLP, NAPIT Registration Limited, Oil Firing Technical Association Limited neu Stroma Certification Limited.
4	3	Gosod cyfarpar llosgi tanwydd solet ar wahân i gyfarpar biomas. Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i ddarparu simnai gwaith maen.	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan yr Association of Plumbing and Heating Contractors (Certification) Limited, Building Engineering Services Competence Assessment Limited, Certsure LLP, HETAS Limited, NAPIT Registration Limited, Oil Firing Technical Association Limited neu Stroma Certification Limited.
2, 5, 6 a 7	4	Gosod system wresogi neu ddŵr poeth, neu'r rheolyddion cysylltiedig.	Person, neu gyflogai i berson, sy'n aelod o ddsbarth o bersonau a gymeradwywyd yn unol â rheoliad 3 o Reoliadau

			Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998, neu person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan yr Association of Plumbing and Heating Contractors (Certification) Limited, Benchmark Certification Limited, Blue Flame Certification Limited, Building Engineering Services Competence Assessment Limited, Certsure LLP, HETAS Limited, NAPIT Registration Limited, Oil Firing Technical Association Limited neu Stroma Certification Limited.
8	5	Gosod system awyru fecanyddol neu system aerdymheru neu reolyddion cysylltiedig, mewn adeilad heblaw annedd, pan nad yw hynny'n cynnwys gweithio ar system a rennir â rhannau o'r adeilad a feddiennir ar wahân.	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan Blue Flame Certification Limited, Building Engineering Services Competence Assessment Limited, Certsure LLP, NAPIT Registration Limited neu Stroma Certification Limited.
9	6	Gosod system aerdymheru neu system awyru fecanyddol mewn tŷ annedd, pan nad yw hynny'n cynnwys gweithio ar system a rennir ag anheddau eraill.	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan Blue Flame Certification Limited, Building Engineering Services Competence Assessment Limited, Certsure LLP, NAPIT Registration Limited neu Stroma Certification Limited.
10	7	Gosod system oleuo neu system wresogi trydan sy'n arbed ynni neu reolyddion cysylltiedig, mewn adeiladau heblaw anheddau.	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan Blue Flame Certification Limited, Building Engineering Services Competence Assessment Limited, Certsure LLP, NAPIT Registration Limited neu Stroma Certification

			Limited.
11	8	Gosod gosodiadau trydan gosodedig foltedd isel neu isel iawn mewn anheddau.	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan BSI Assurance UK Limited, Benchmark Certification Limited, Blue Flame Certification Limited, Building Engineering Services Competence Assessment Limited, Certsure LLP, NAPIT Registration Limited, Oil Firing Technical Association Limited neu Stroma Certification Limited.
12	9	Gosod gosodiadau trydan gosodedig foltedd isel neu isel iawn mewn anheddau, yn ychwanegiad angenrheidiol at waith arall sy'n cael ei wneud gan y person cofrestredig, neu'n deillio o waith arall o'r fath.	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan yr Association of Plumbing and Heating Contractors (Certification) Limited, Benchmark Certification Limited, Blue Flame Certification Limited, Building Engineering Services Competence Assessment Limited, Certsure LLP, NAPIT Registration Limited neu Stroma Certification Limited.
13	10	Gosod ffenestr, ffenestr yn y to nad yw'n agor, ffenestr to neu ddrws mewn annedd bresennol yn lle un sydd eisoes yn bodoli.	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan BM Trada Certification Limited, BSI Assurance UK Limited, Blue Flame Certification Limited, CERTASS Limited, Certsure LLP, gan Fensa Limited o dan y Fenestration Self-Assessment Scheme, gan NAPIT Registration Limited, Network VEKA Limited neu Stroma Certification Limited.

21	11	Gosod, yn lle un sydd eisoes yn bodoli, ffenestr, ffenestr yn y to nad yw'n agor, ffenestr to neu ddrws mewn adeilad presennol nad yw'n annedd. Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i wydr sy'n cynnal pwysau neu'n strwythurol neu sy'n rhan o furlen wydrog neu ddrws troi.	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan BM Trada Certification Limited, Blue Flame Certification Limited, CERTASS Limited, Certsure LLP, gan Fensa Limited o dan y Fenestration Self-Assessment Scheme, gan NAPIT Registration Limited, Network VEKA Limited neu Stroma Certification Limited.
14	12	Gosod cyfleuster glanweithiol, sinc, basn ymolchi, bidet, baddon gosodedig, cawod neu ystafell ymolchi mewn annedd, pan nad yw hynny'n cynnwys gweithio ar ddraeniau a rennir neu ddraeniau tanddaearol.	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan yr Association of Plumbing and Heating Contractors (Certification) Limited, Benchmark Certification Limited, Building Engineering Services Competence Assessment Limited, Certsure LLP, HETAS Limited, NAPIT Registration Limited neu Stroma Certification Limited.
15	13	Gosod cyflenwad dŵr iachusol neu gyflenwad dŵr iachusol wedi ei feddalu.	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan yr Association of Plumbing and Heating Contractors (Certification) Limited, Benchmark Certification Limited, Building Engineering Services Competence Assessment Limited, Certsure LLP, HETAS Limited, NAPIT Registration Limited neu Stroma Certification Limited.
16	14	Gosod cyflenwad dŵr afiach ar gyfleuster glanweithiol â dyfais fflysio, pan nad yw hynny'n cynnwys gweithio ar ddraeniau a rennir neu ddraeniau tanddaearol.	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan yr Association of Plumbing and Heating Contractors (Certification) Limited, Benchmark Certification Limited, Building Engineering Services Competence Assessment

			Limited, Certsure LLP, HETAS Limited, NAPIT Registration Limited neu Stroma Certification Limited.
17	15	Gosod system mewn adeilad i gynhyrchu trydan neu wres, neu i oeri – drwy ficrogynhyrchu; neu o ffynonellau adnewyddadwy (fel y'u diffiniwyd yng Nghyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor 2009/28/EC ar hyrwyddo'r defnydd o ynni o ffynonellau adnewyddadwy).	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan yr Association of Plumbing and Heating Contractors (Certification) Limited, Benchmark Certification Limited, Building Engineering Services Competence Assessment Limited, Certsure LLP, HETAS Limited, NAPIT Registration Limited, Oil Firing Technical Association Limited neu Stroma Certification Limited.
19	16	Gosod gorchudd yn lle un sydd eisoes yn bodoli ar do ar oledf neu do fflat, a gwaith sy'n cael ei wneud gan y person cofrestredig yn ychwanegiad angenrheidiol at y gwaith gosod hwnnw. Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i osod paneli solar.	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan NAPIT Registration Limited neu'r National Federation of Roofing Contractors Limited.
18	17	Gosod deunydd inswleiddio mewn waliau ceudod adeilad sydd eisoes yn bodoli.	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan Blue Flame Certification Limited, CERTASS Limited, The Cavity Insulation Guarantee Agency o dan y Cavity Wall Insulation Self-Certification Scheme, gan Certsure LLP, NAPIT Registration Limited neu Stroma Certification Limited.
22	18	Gosod deunydd inswleiddio ar waliau mewnol adeilad, heb gynnwys gosod leinin thermol hyblyg.	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan Blue Flame Certification Limited, British Board of Agrément, CERTASS Limited, Certsure LLP, NAPIT Registration Limited neu Stroma Certification Limited.

23	19	Gosod deunydd inswleiddio ar waliau allanol adeilad, heb gynnwys inswleiddio adeiladau â chladin dros dro.	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan Blue Flame Certification Limited, British Board of Agrément, CERTASS Limited, Certsure LLP, NAPIT Registration Limited neu Stroma Certification Limited.
24	20	Gosod deunydd inswleiddio ar waliau mewnol ac allanol adeilad (“inswleiddio hybrid”), heb gynnwys inswleiddio adeiladau â chladin dros dro a heb gynnwys gosod leinin thermol hyblyg.	Person a gofrestrwyd o ran y math hwnnw o waith gan Blue Flame Certification Limited, British Board of Agrément, CERTASS Limited, Certsure LLP, NAPIT Registration Limited neu Stroma Certification Limited.”